

# Cylchlythyr Ysgol Parc y Bont

Pasg 2019




## Problemau Traffig

Rydym wedi derbyn rhai cwynion gan y trigolion lleol ynglyn â phroblemau traffig yn y pentref ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Rydym wedi monitro y sefyllfa yn ofalus ac wedi sylwi, ar rai achlysuron, ceir yn ciwio i'r lôn i gael mynediad i'r ysgol gan atal llif traffig drwy'r pentref.

Prif reswm dros hyn yw'r camddefnydd o'r 'Lôn Codi/Gollwng a Mynd'. Ni ddylai y lôn yma gael ei hatal gan geir wedi parcio ar unrhyw adeg. Peidiwch â pharcio a gadael eich car ar y lôn yma. Peidiwch ag atal y llif traffig wrth ollwng eich plentyn wrth y drws / giât - mae'r saeth goch yn dangos y man gollwng priodol.

Os ydych ym mlaen y ciw a bod eich plentyn yn cymryd amser i ddod at y car, symudwch eich car ac ail ymuno â'r ciw er mwyn sicrhau llif cyson o draffig os gwelwch yn dda.



## Cytundeb Partneriaeth Ysgol Parc y Bont ac Ysgol Brynsiencyn

Mae'r bartneriaeth yn dod i ben ddiwedd y mis, felly bydd Mr Taylor yn dychwelyd i'w ddyletswyddau fel pennaeth llawn amser yn Ysgol Parc y Bont. Mae llywodraethwyr Ysgol Brynsiencyn yn hynod ddiolchgar i Ysgol Parc y Bont am eu hymroddiad i'r bartneriaeth ac i Mr Iwan Wyn Taylor am ei gefnogaeth, ei arweiniad a'i waith caled gyda'r ysgol.

## Swyddog Cefnogi Ysgol

Mae'r ysgol wedi penodi Swyddog Cefnogi Ysgol newydd, sef Mrs Gillian Morris. Mae Mrs Morris yn delio â holl waith a thasgau gweinyddol yn cynnwys taliadau cinio ysgol, taliadau ar-lien, Schoolcomms, data am ddisgyblion ayb. Os oes ganddoch unrhyw gwestiynau ynglyn â thaliadau ayb, cysylltwch â'r Swyddog Cefnogi Ysgol. Mae'n gweithio ar ddyddiadu Llun - Iau 8.30 - 12.30. Ebst: [swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk](mailto:swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk) / 01248 422350

## Gwisg Ysgol / Dillad

Dylai fod POB UN dilledyn yn cael ei labelu yn glir ag enw'ch plentyn - yn arbennig siwmperi ysgol.

## Dyledion Arian Cinio

Mae dyledion arian cinio yn uchel unwaith eto. Os gwelwch yn dda, cliriwch unrhyw ddyled erbyn y tymor nesaf. Os oes ganddoch ddyled o fwy na 10 pryd, byddwn yn cysylltu â chi tymor nesaf. Os ydych yn tybio eich bod yn gymwys i brydau ysgol am ddim, cewch ragor o wybodaeth ar: <http://www.anglesey.gov.uk/education/schools/school-meals/free-school-meals/> neu cysylltwch ag Adran Budd-daliadau y Cynor: [budd-dal@ynysmon.gov.uk](mailto:budd-dal@ynysmon.gov.uk).

## Diweddariad gan y Llywodraethwyr / Newid statws yr ysgol

Gyda'r ysgol yn cau fel ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru, bydd Ysgol Parc y Bont yn newid i fod yn ysgol gymunedol o 29ain Ebrill 2019 gydag Offeryn Llywodraethol newydd mewn lle. Bydd y llywodraethwyr cyfredol yn cadw eu seddi ond ni fydd cynrychiolaeth o'r Eglwys ar y corff. Mae'r Corff Llywodraethol wedi cyfethol Dr Neil Trevor Jones i fod yn gynrychiolydd ychwanegol i'r Awdurdod Addysg Lleol a Mrs Siwan Tecwyn Jones fel llywodraethwraig cymunedol ychwanegol.

Mr Ken Griffith fydd yn eich cynrychioli chi fel rhieni ar y corff, ar y cyd â'ch cynrychiolwyr cyfredol Mrs Sian Eleri Roberts a Dr Sara Elin Roberts.

### E-byst

Mae pob cylchlythyr yn cael ei anfon drwy ebost - dyma'r unig gopi papur gewch chi oni bai eich bod yn ein hysbysu eich bod eisieu copi'au papur yn y dyfodol. Wrth dderbyn copi papur, mae hyn yn sicrhau ein bod yn gallu osgoi gwaith gweinyddol a chostau diangen.

### Clwb Hwyl Parc y Bont

Fel y gwyddoch, bydd Clwb Hwyl Ar Ôl Ysgol yn cau yn ei ffurf bresennol heddiw. Bydd darpariaeth newydd mewn lle erbyn 29ain Ebrill 2019, sef Clwb Hwyl Parc y Bont. Bydd y clwb newydd yn cael ei reoli gan y Corff Llywodraethol. Bydd y clwb ar agor rhwng 3.16yp and 5.15yp gyda ffi o £6.50 y plentyn a fydd yn cynnwys byrbryd a gweithgareddau amrywiol. Bydd Llawlyfr i Rieni ar gael erbyn tymor nesaf. Bydd rhaid archebu lle a gwneud taliadau ar 'Clwb Hwyl Parc y Bont' ar-lein. Bydd rhaid clirio unrhyw ddyled i Glwb Hwyl Ar Ôl Ysgol cyn gynted a bo'r modd os gwelwch yn dda. Cysylltwch â'r Swyddog Cefnogi Ysgol os â unrhyw ymholiad.

### Côr yr Ysgol

Os yw eich plentyn yn y côr, byddant yn perfformio yng Nghyngedd Mawreddog Eisteddfod Môn yng Nghapel Disgwylfa, Gaerwen ar nos Sadwrn Mai 11eg am 7yh. Pris tocyn yn £10 - mae rhai ar gael o'r ysgol neu fe allwch brynu wrth y drws. Gallwch hefyd adael eich plentyn gyda staff yr ysgol. Gadewch i ni wybod ar ôl y gwyliau, os nad yw eich plentyn ar gael ar y noson plîs.

#### YSGOL PARC Y BONT 2018-2019

	EBRILL / APRIL 2019	MAI / MAY 2019	MEHEFIN / JUNE 2019	GORFFENNAF/JULY 2019	
1		BI/Yr 5&6: CAERDYDD/CARDIFF		Campau'r Ddraig Bl.3-6 Dragon Sports Yr.3-6 3.15-4.15pm	1
2		BI/Yr 3&4: GLAN-LLYN		NOSON AGORED I RIENI / OPEN PARENTS EVENING	2
3		BI/Yr 3&4: GLAN-LLYN	HMS/INSET - Ysgol ar gau/Sch. closed		3
4					4
5					5
6		GWYLIAU / HOLIDAY			6
7					7
8		BI/Yr.2-6 Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol / National Reading and Numeracy Tests			8
9					9
10			Wythnos Byw yn Iach	Campau'r Ddraig Bl.3-6 Dragon Sports Yr.3-6 3.15-4.15pm	10
11	P'nawn Pasg/Easter Afternoon 3.15pm	Côr yr ysgol/School Choir - Cyngedd Eisteddfod Môn, Capel Disgwylfa 7pm			11
12			Healthy Living Week		12
13		Campau'r Ddraig Bl.3-6 Dragon Sports Yr.3-6 3.15- 4.15pm			13
14					14
15	GWYLIAU / HOLIDAYS				15
16	GWYLIAU / HOLIDAYS			Tripliau Haf / Summer Trips	16
17	GWYLIAU / HOLIDAYS	6pm: Helfa Drysor / Treasure Hunt	Campau'r Ddraig Bl.3-6 Dragon Sports Yr.3-6 3.15-4.15pm		17
18	GWYLIAU / HOLIDAYS		Mabolgampau a Ffair Haf / Sports Day & Summer Fair 1.30pm	6pm Disgo Diwedd Flwyddyn / End of Year Disco	18
19	GWYLIAU / HOLIDAYS			Ysgol yn cau am yr haf / School closes for the summer holidays	19
20		Campau'r Ddraig Bl.3-6 Dragon Sports Yr.3-6 3.15-4.15pm			20
21					21
22	GWYLIAU / HOLIDAYS	*Tynnu Lluniau Ysgol / School Photos*		GWYLIAU / HOLIDAYS	22
23	GWYLIAU / HOLIDAYS			GWYLIAU / HOLIDAYS	23
24	GWYLIAU / HOLIDAYS		Campau'r Ddraig Bl.3-6 Dragon Sports Yr.3-6 3.15-4.15pm	GWYLIAU / HOLIDAYS	24
25	GWYLIAU / HOLIDAYS			GWYLIAU / HOLIDAYS	25
26	GWYLIAU / HOLIDAYS		BI./Yr.6 Ysgol David Hughes	Diwrnod Blasu / Taster Day. Meithrin drwy'r dydd/Nursery all day	26
27		GWYLIAU / HOLIDAYS			27
28		GWYLIAU / HOLIDAYS	Adroddiadau allan i rieni / School reports to parents		28
29	BI/Yr 5&6: CAERDYDD/CARDIFF	GWYLIAU / HOLIDAYS		GWYLIAU / HOLIDAYS	29
30	BI/Yr 5&6: CAERDYDD/CARDIFF	GWYLIAU / HOLIDAYS		GWYLIAU / HOLIDAYS	30
31		GWYLIAU / HOLIDAYS		GWYLIAU / HOLIDAYS	31